

KNIGHT, WILLIAM BRUCE (1785 - 1845), clericwr, gweinydd, ac ysgolhaig Cymraeg

Enw: William Bruce Knight

Dyddiad geni: 1785

Dyddiad marw: 1845

Priod: Maria Elinor Knight (née Traherne)

Rhiant: Margaret Knight (née Bruce)

Rhiant: John Knight

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: clericwr, gweinydd, ac ysgolhaig Cymraeg

Maes gweithgaredd: Crefydd; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Lawrence Thomas

Ganwyd 24 Rhagfyr 1785 yn Braunton, Dyfnaint, ail fab John Knight a Margaret, merch William Bruce, Duffryn, Aberdâr, a brawd i [John Bruce Pryce](#). Ar ochr ei fam yr oedd yn yr i William Bruce, Llanbleddian, a Jane, yres Syr Thomas Lewis, Llanishen. Pan oedd y mab yn ieuanc symudodd ei rieni i Lanbleddian ac addysgwyd ef yn ysgol ramadeg y Bont-faen cyn iddo fynd i ysgol Sherborne ac wedyn i Goleg Exeter, Rhydychen (ymaelodi 5 Mai 1803, B.A. 1807, M.A. 1811). Bu'n gurad Llanishen, ac am ddwy flynedd yn gurad i Dr. Lisle, ficer S. Ffagan, gan wasnaethu capel Llanilltern yn y plwyf hwnnw. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n astudio Cymraeg a Hebraeg. Yn 1815 rhoddwyd bywoliaeth Llantrithyd iddo gan Syr John Aubrey. Ddwy flynedd yn ddiweddarach rhoes ymddiriedolwyr [C. R. M. Talbot](#) fywoliaeth Margam iddo ynghyd â rheithoraeth Llandough-juxta-Cowbridge a S. Mary's Church, Gyda chymorth curad bu'n gwasnaethu y rhai hyn o 1817 hyd 1843, gan fyw yn yr hen ficerdy, Tynycaeau. Priododd Maria Elinor Traherne, S. Hilary.

Yn 1843 symudodd i Landaf i fod yn archddiacon Morgannwg, a dyfod yn ddeon Llandaf yr un flwyddyn. Bu farw ar 8 Awst 1845 a chladdwyd ef o flaen yr allor yn y 'lady chapel' yn eglwys gadeiriol Llandaf.

Y mae i Knight bwysigrwydd fel ysgolhaig, Eglwyswr, a gweinydd. Yn y ddatl yngl n ag orgraff yr iaith Gymraeg a fu yn nechrau'r 19eg ganrif, yr oedd Knight ar ochr traddodiad ac felly'n gwrthwynebu [John Jones](#) ('Tegid') a fynnai fabwysiadu dull newydd. Cyhoeddodd *Remarks Historical and Philological on the Welsh Language* a *A Critical Review of John Jones' Reply*. Iddo ef y rhoddir 'the chief credit of saving the Welsh *Bible* from the vandalism of [Pughe](#)'s followers.' Y mae iddo'r clod hefyd (gyda thri chaplan arholi y tair esgobaeth arall) am fersiwn ddiwygiedig y *Llyfr Gweddi Gyffredin*, 1841.

Knight ydoedd clericwr pennaf esgobaeth Llandaf mewn cyfnod pan na cheid esgobion trigiannol neu a oedd yn gwbl drigiannol. Cafodd ei ddewis, gan wahanol esgobion, yn ganon arholi, yn ganghellor yr esgobaeth a'r eglwys gadeiriol, a phan adnewyddwyd swydd deon gan y Senedd (3 a 4 Victoria) ef a ddaeth yn ddeon cyntaf Llandaf ar ôl i'r lle fod yn wag am saith canrif.

Yr oedd yn ddylanwadol hefyd fel gweinyddwr. Yn rhinwedd ei swydd fel caplan arholi yr oedd yn gyfrifol am ddewis a threfnu i addysgu ac arholi ymgeiswyr am urddau eglwysig; yn y cyfnod hwn, pan nad oedd esgobion trigiannol, ordeinid ymgeiswyr Llandaf mewn esgobaethau eraill dan gennad ('Letters Dimissory'). Yr oedd gofal yr esgobaeth yn gyffredinol arno; ymwelai fel archddiacon yn rheolaidd, a thrwy hynny yr oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am bolisi'r esgobaeth. Cafodd yr esgob Coplestone ef yn gymorth gwerthfawr iddo. Yr oedd yn weithgar gyda llu o gymdeithasau - y S.P.C.K., y 'Church Enlargement Society,' y 'Widows and Orphans' Society,' etc. Cymerai ddiddordeb mawr mewn addysg ac eisteddfodau. Yr oedd ei gartref yn fath o d busnes lle y gellid cael llyfrau a thraethodau eglwysig, y *Llyfr Gweddi Gyffredin*, etc. Yr oedd ei ddiddordeb yn ddwfn mewn adeiladu eglwysi; ef ei hunan a drefnodd i adeiladu eglwys Holy Cross, Margam, yn 1827. Pan ddaeth yn ddeon Llandaf atgyweiriodd y Lady Chapel a chasglodd £20,000 ar gyfer gwneuthur ychwaneg o waith atgyweirio.

Awdur

Yr Archddiacon Lawrence Thomas, (1889 - 1960)

Ffynonellau

A. O. Evans, *A Chapter in the History of the Welsh Book of Common Prayer; or, the letters which were written preparatory to the revised edition of 1841. Annotated, with biographical sketches* (Bangor 1922), 1922

Foster, *Alumni Oxonienses*

Registrum Collegii exoniensis Register of the rectors, fellows, and other members on the foundation of Exeter college, Oxford. With a history of the college and illustrative documents (Rhydychen 1894)

The Ecclesiastical Gazette

A. Ollivant, *Some account of the condition of the fabric of Llandaff Cathedral from 1575 to its reopening in 1857* (Llundain 1857)

Llandaff MSS.

Memoirs of Dean Conybeare

letters of Bp. Coplestone to W.B.K. (Llandaff MSS)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [315944739](#)

Wikidata: [Q20734577](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

